

Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

Ionawr 2022

Rhagair y Cadeirydd

Ym mis Mehefin 2021, cefais y fraint o gael fy ethol gan fy nghyd-Aelodau o'r Senedd fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Mae gan y Pwyllgor hwn, ar ei newydd wedd, gylch gwaith eang, ac mae'n ymdrin â llawer o'r hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhorthffolios y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd. Heb os, bydd sicrhau bod y Pwyllgor yn ystyried pob agwedd ar ei gylch gwaith yn her, ond mae'n her yr wyf i, ac aelodau eraill y Pwyllgor, yn benderfynol o'i chyflawni. Credaf fod y cam o gynnwys newid hinsawdd, yr amgylchedd, ynni, trafndiaeth, seilwaith a chynllunio yng nghylch gwaith un Pwyllgor yn un synhwyrol. Mae angen inni fabwysiadu dull cyfannol, trawsbynciol i gyflawni'r newidiadau y mae'n rhaid i ni eu gweld er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a'r argyfwng natur.

Dros yr haf, gwnaethom gynnal ymgynghoriad eang er mwyn clywed safbwyntiau rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd ynghylch y materion y dylai'r Pwyllgor eu blaenoriaethu ar ddechrau tymor newydd y Senedd hon. Roeddem yn falch o gael dros 100 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ac mae'r ymatebion hynny wedi'u cyhoeddi mewn adroddiad cryno ar wahân. Yna, gwnaethom gynnal nifer o sesiynau tystiolaeth lafar, a roddodd gyfle inni graffu'n fanwl ar y materion a godwyd. Yn olaf, cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, er mwyn ceisio deall eu blaenoriaethau uniongyrchol a'u blaenoriaethau yn y tymor hwy.

Rydym bellach wedi nodi tri maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer ein gwaith – newid hinsawdd a sero net, diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol, a chymunedau cynaliadwy. Mae'r drydedd flaenoriaeth yn cwmpasu trafndiaeth, seilwaith a chynllunio, a bydd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried sut y gall polisiau yn y meysydd hyn arwain at gymunedau cynaliadwy. Rydym wedi ceisio cynnwys cymaint o'r materion a godwyd ag y bo modd.



Mae hon yn ddogfen fyw. Bydd y blaenoriaethau yn newid, a bydd digwyddiadau allanol yn arwain at heriau newydd y bydd gofyn mynd i'r afael â hwy. Rydym wedi cytuno i fod yn ystwyth ac yn ymatebol. Byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall hanner ffordd drwy tymor y Senedd hon, a hynny er mwyn asesu a oes angen i ni ailfeddwl rhai o'r blaenoriaethau hyn.

Gwnaethom hefyd nodi sut y byddwn yn gweithio fel Pwyllgor. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â phobl, yn enwedig pobl ifanc, ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu cwrdd â phobl wyneb yn wyneb eto yn fuan. Rwy'n ymwybodol bod hon yn agwedd ar waith y Pwyllgor sy'n cael ei gwerthfawrogi a'i mwynhau gan bob aelod.

Rwy'n gobeithio eich bod yn cytuno bod hon yn rhaglen waith gyffrous. Rydym yn edrych ymlaen at roi cyfle i chi rannu eich arbenigedd a'ch profiad â ni.

Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

1. Ffyrdd o weithio

1. Mae gan y pwyllgor gylch gwaith arbennig o eang, ac rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cyflwyno heriau wrth graffu ar yr ystod lawn o feysydd polisi. Mae nifer o'r materion a nodwyd gan randdeiliaid fel blaenoriaethau posibl i'r pwyllgor yn drawsbynciol. Rydym yn cydnabod y gallai fod angen gweithio ar y cyd â phwyllgorau eraill y Senedd, ac efallai y bydd angen arferion gwaith mwy arloesol i ystyried y materion hyn. Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'n hymgyngoriad oedd y dylem ganolbwyntio ar gyflawni polisi a chanlyniadau.

Sut y byddwn yn gweithio

- Byddwn yn gweithio'n strategol ac yn ystwyth. Bydd gennym ymagwedd hyblyg tuag at ein gwaith - bydd angen archwilio rhai materion yn fanwl drwy ymchwiliad llawn, a gellir mynd i'r afael ag eraill drwy ohebiaeth â'r Gweinidog neu'r corff cyhoeddus perthnasol.
- Byddwn yn gosod amcanion clir ar gyfer ein gwaith ac yn ystyried y ffordd orau o gyflawni'r effaith a ddymunir.
- Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar graffu ar newid hinsawdd ac yn gofyn am ddatl yn y Cyfarfod Llawn i sicrhau bod pob un o Aelodau o'r Senedd yn gallu trafod cynnydd Llywodraeth Cymru.
- Byddwn yn monitro ac yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd polisiau bioamrywiaeth.
- Byddwn yn gwneud gwaith dilynol i sicrhau bod y gwaith yn cael yr effaith a ddisgwylir gennym.

Gweithio gydag eraill

- Byddwn yn edrych am gyfleoedd i weithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd a chyda phwyllgorau cyfatebol mewn deddfwrfeydd eraill.
- Byddwn yn annog pwyllgorau eraill y Senedd i brif ffrydio ystyriaeth o newid hinsawdd a materion bioamrywiaeth wrth iddynt graffu ar y gwaith.

Ymgysylltu

- Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan ymgysylltiad â sefydliadau sy'n cynrychioli'r amrywiaeth eang o bobl yng Nghymru, plant a phobl ifanc, ac unigolion sydd â phrofiad byw o anghydraddoldeb.
- Byddwn yn defnyddio arbenigedd a dealltwriaeth arbenigwyr academiaidd i gryfhau gwaith y pwyllgor. Byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil yn ein meysydd blaenoriaeth os nad yw'n bodoli eisoes.
- Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall ar ein blaenoriaethau hanner ffordd drwy dymor y Senedd hon i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol, yn berthnasol ac yn angenrheidiol.

2. Ein blaenoriaethau

2. Ar ddechrau'r Chweched Senedd, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn helpu i lywio ein blaenoriaethau. Cawsom 118 o gyflwyniadau gan randdeiliaid ac unigolion y mae eu diddordebau yn rhychwantu ehangder ein cylch gwaith.

3. Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd cyfres o sesiynau tystiolaeth thematig gyda rhanddeiliaid i ystyried eu safbwyntiau ymhellach. Cafwyd tystiolaeth hefyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog') a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ('y Dirprwy Weinidog').

4. Neilltuwyd ein cyfarfod ar 25 Tachwedd i bennu ein blaenoriaethau.

Y blaenoriaethau

5. Mae ein blaenoriaethau wedi'u grwpio o dan dair thema - Newid Hinsawdd; Cymunedau Cynaliadwy; a Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. Fe'u gosodir yn erbyn amserlen ddangosol - y chwe mis nesaf; Blwyddyn 2 tymor y Senedd; neu Flynyddoedd 3-5 o dymor y Senedd.

6. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer blynyddoedd diweddarach yn llai penodol, gan ein bod am gadw hyblygrwydd i ymateb i unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru neu i unrhyw ffactorau neu ddigwyddiadau allanol. Bydd angen inni hefyd ystyried y blaenoriaethau hyn yn sgil y cytundeb cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a gytunwyd yn 2021, ac a fydd yn para am dair blynedd.

Materion eraill

- 7.** Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r pwyllgor hwn wedi cyfarfod bob pythefnos, yn unol â'r amserlen y cytunodd Pwyllgor Busnes y Senedd arni. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i adolygu'r trefniant hwn yn gynnar yn 2022. Gall penderfyniadau i newid yr amserlen effeithio ar yr amserlenni a nodir yn yr adroddiad hwn.
- 8.** Mae'r pwyllgor yn disgwyl ystyried sawl fframwaith cyffredin anneddfwriaethol, sy'n angenrheidiol oherwydd i'r DU ymadael a'r UE, yn gynnar yn 2022.
- 9.** Disgwyliwn i sawl Bil gael ei gyfeirio at y pwyllgor hwn yn ystod y Chweched Senedd. Mae gwybodaeth am pryd y bydd y Biliau'n cael eu cyflwyno yn gyfyngedig, ac mae'n debygol y bydd yn rhaid i'n rhaglen waith newid i gynnwys y gwaith o'u hystyried.
- 10.** Mae'n ofynnol i'r pwyllgor ystyried sawl mater yn flynyddol a chyflwyno adroddiad arnynt, gan gynnwys cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cytuno i ystyried sawl eitem arall o fusnes yn flynyddol, gan gynnwys craffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru; y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol; Trafnidiaeth Cymru; yr Asesydd Llywodraethu Amgylcheddol; ac Ofcom. Nodir y rhain o dan y thema berthnasol, lle bo hynny'n briodol.
- 11.** Byddwn yn parhau i gynnal sesiynau craffu cyffredinol rheolaidd gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd a byddwn yn achub ar y cyfleoedd hynny i drafod y meysydd blaenoriaeth hyn gyda hwy.

Blaenoriaeth 1 - Newid hinsawdd

12. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd¹ wedi disgrifio'r 2020au fel y degawd pendant ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd, gyda Chymru angen gwneud mwy o gynnydd o ran lleihau allyriadau carbon yn y degawd hwn nag yn y tri diwethaf. Bydd y camau a gymerir, neu na chaiff eu cymryd, gan Lywodraeth Cymru yn ystod tymor y Senedd hon, a'r nesaf, yn hollbwysig wrth benderfynu a all Cymru ddod yn genedl Sero Net erbyn 2050.

13. Mae Cymru Sero Net - Cyllideb Carbon 2 (2021 i 25). Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ychydig cyn COP26, yn nodi ei pholisïau a'i chynigion ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Bydd y ddogfen hon yn arwain ein gwaith drwy'r Chweched Senedd.

14. Dim ond un rhan o'r her newid hinsawdd yw'r newid i Sero Net. Y llall yw deall ac addasu i risgiau hinsawdd. Mae pwysigrwydd hyn wedi'i amlygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda Chymru wedi gweld tri digwyddiad llifogydd mawr ers dechrau 2020. Mae'r rhain wedi cael effaith ddinistriol a hirhoedlog ar gymunedau. Hyd yn oed gyda gostyngiadau dramatig mewn allyriadau carbon ar lefel genedlaethol a byd-eang, mae newid pellach yn anochel, sy'n golygu bod digwyddiadau tywydd mwy eithafol yn debygol.

Beth y byddwn yn ei wneud yn ystod y chwe mis nesaf...

Addasu hinsawdd - Byddwn yn asesu cynnydd tuag at gyflawni cynllun addasu hinsawdd Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd, gan ystyried trydydd Asesiad o Risg Newid Hinsawdd y DU (i'w gyhoeddi yn gynnar yn 2022).

Datgarboneiddio tai - Byddwn yn dechrau ymchwiliad aml-gam i ddatgarboneiddio sector tai Cymru, gan adeiladu ar argymhellion y Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, ac adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru a'r Sefydliad New Economics, Cartrefi addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod.

Ynni adnewyddadwy - Byddwn yn ystyried canlyniadau ymchwiliad manwl y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i rwystrau i gynyddu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn sylweddol.

Newid ymddygiad - Rydym am ddeall yn well sut y gall Llywodraeth Cymru hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd a sicrhau'r ymddygiad a'r newid cymdeithasol sydd eu hangen i fynd i'r

¹ Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Ei ddiben yw cynghori'r DU a llywodraethau datganoledig ar dargedau allyriadau ac adrodd i'r Senedd ar y cynnydd a wnaed wrth leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdr a pharatoi ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.

afael â newid hinsawdd. Byddwn yn comisiynu rhywfaint o waith ymchwil academaidd cychwynnol i'n cefnogi yn hyn o beth.

Beth y byddwn yn ei wneud ym Mlwyddyn 2 tymor y Senedd hon...

Cyllidebau carbon - Byddwn yn craffu ar y modd y cyflawnwyd y gyllideb garbon gyntaf (2016 i 2020), wedi'i lywio gan ddatganiad Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod cyllidebol ac adroddiad cynnydd dilynol y Pwyllgor Newid Hinsawdd (dylai'r ddau fod ar gael yn 2022). Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r pwyllgor ystyried allyriadau defnydd Cymru.

Datgarboneiddio'r sector cyhoeddus - Byddwn yn craffu ar y cynnydd tuag at gamau gweithredu a cherrig milltir a nodir yng ngwaith Llywodraeth Cymru, [Statws Carbon Sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru](#) (Gorffennaf 2021) a [Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru](#) (Mawrth 2021). Bydd hyn yn rhoi cyfle i adeiladu ar waith adolygiad Archwilio Cymru, a ddylai gael ei gwblhau yn ystod haf 2022.

Datgarboneiddio tai - Byddwn yn parhau â'n gwaith ar ddatgarboneiddio tai.

Awgrymiadau o ran glo - Byddwn yn ymgymryd â rhywfaint o waith cychwynnol, archwiliadol ar y pwnc hwn i baratoi ar gyfer deddfwriaeth ddisgwyliedig.

Ym mlynnyddoedd 3-5, bydd ein gwaith yn cynnwys y canlynol:

Cynhelir sesiynau craffu blynyddol gyda Llywodraeth Cymru i asesu cynnydd tuag at gyflawni polisiau a datblygu cynigion yn **Cymru Sero Net**, ac effaith y rhain ar allyriadau carbon ar draws sectorau. Byddwn yn cynnal sesiynau craffu blynyddol gyda Llywodraeth Cymru i asesu cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau yn **Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd**. Byddwn yn parhau â'n gwaith ar **ddatgarboneiddio tai**. Byddwn yn adolygu **Strategaeth Genedlaethol 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru**.

Blaenoriaeth 2 - Cymunedau cynaliadwy

15. Mae gan gymunedau cynaliadwy gysylltedd da a chyfleoedd trafndiaeth cynaliadwy. Mae eu cartrefi yn garbon isel, yn fforddiadwy, ac yn hygyrch i'r gymuned leol. Mae gan y bobl sy'n byw yn y cymunedau hyn fynediad at fwyd fforddiadwy, cynaliadwy sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol. Mae ganddynt sgiliau gwyrdd y maent yn eu defnyddio mewn swyddi sydd â chyflog da mewn cwmnïau lleol, arloesol. Dylai cymunedau cynaliadwy fodoli ledled Cymru, nid yn unig mewn ardaloedd trefol, a gall y bobl sy'n byw yno wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

16. Mae sawl maes polisi perthnasol sy'n ymwneud ag adeiladu cymunedau cynaliadwy yn dod o fewn cylch gwaith y pwyllgor, gan gynnwys cynllunio, trafndiaeth a seilwaith.

17. Bydd dwy thema yn sail i'n gwaith craffu yn y maes blaenoriaeth hwn - sicrhau cyfnod pontio cyfiawn i economi werdd, a chyflawni'r Nodau Llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Beth y byddwn yn ei wneud yn ystod y chwe mis nesaf...

Cymunedau cynaliadwy - Byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil ar y tueddiadau diweddaraf ac arfer da ac yn ystyried sut y gallai'r rhain fod yn berthnasol yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio'r gwaith hwn fel sylfaen i ddatblygu cynlluniau ar gyfer ffrydiau gwaith yn y dyfodol ar lunio lleoedd a chymunedau cynaliadwy yn nes ymlaen yn y Senedd hon.

Trafnidiaeth - Byddwn yn ystyried y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl Covid. Byddwn yn cynnal ein sesiwn graffu flynyddol gyntaf gyda Trafnidiaeth Cymru. Byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil ar newid ymddygiad mewn perthynas â newid moddol a theithio llesol.

Cysylltedd digidol - Byddwn yn asesu cynnydd ar gysylltedd digidol ledled Cymru.

Aer glân - Byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Bil cyn gynted â phosibl.

Beth y byddwn yn ei wneud ym Mlwyddyn 2 tymor y Senedd hon...

Llywodraethu trafndiaeth - Byddwn yn ystyried a yw'r strwythurau cyflenwi cyfredol, y trefniadau llywodraethu a'r adnoddau yn ddigonol. Byddwn yn edrych ar y Cynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Cenedlaethol pum mlynedd newydd a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, y bwriedir iddynt gael eu datblygu gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.

Seilwaith - Byddwn yn cynnal ein sesiwn graffu flynyddol gyntaf gyda Chadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

Cynllunio - Bydd gwaith ar gynllunio yn cynnwys ystyried a oes digon o gapasiti, adnoddau a sgiliau arbenigol yn adrannau cynllunio awdurdodau lleol.

Cerbydau trydan - Byddwn yn asesu cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu a strategaeth gwefru cerbydau trydan Llywodraeth Cymru.

Creu lleoedd - byddwn yn parhau i weithio ar greu lleoedd fel y nodwyd yn ein gwaith cwmpasu.

Ym mlynnyddoedd 3-5, bydd ein gwaith yn cynnwys y canlynol:

Adolygiad o strategaeth **economi gylchol** Llywodraeth Cymru, Mwy nag Ailgylchu. Byddwn yn asesu cynnydd yn erbyn Strategaeth ddigidol ar gyfer Cymru Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau â'n gwaith **Ynni Adnewyddadwy**. Byddwn yn adolygu'r **fframwaith cynllunio**, gan gynnwys ystyried Dyfodol Cymru a chraffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Byddwn yn parhau â'n gwaith **newid moddol a chreu lleoedd**.

Blaenoriaeth 3 - Amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol

18. Mae amgylchedd naturiol Cymru yn un o'i hasedau mwyaf gwerthfawr, ond mae dan fygythiad gan ystod o ffynonellau, gan gynnwys llygredd, newid hinsawdd a gorfanteisio. Mae'r rhan fwyaf o fathau o gynefinoedd yng Nghymru wedi gweld gostyngiad mewn bioamrywiaeth dros y 100 mlynedd diwethaf. Mae colli bioamrywiaeth yn barhaus yn dod â risgiau i ddiogelwch a lles pobl drwy 'wasanaethau ecosystem' a gollir. Mae Cymru yn dal i fod ymhell o gyrraedd nodau bioamrywiaeth cenedlaethol a rhyngwladol, megis 'rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy' fel y'u diffinnir yn *Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* neu'r targedau Aichi a ddiffinnir gan y Confensiwn ar Fioamrywiaeth. Bydd amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol yn her allweddol i Lywodraeth Cymru yn ystod y Chweched Senedd.

19. Er bod gan Gymru fframwaith deddfwriaethol penodol sydd wedi'i gynllunio i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, mae cwestiynau ynghylch a yw'n gwneud gwahaniaeth yn ymarferol a sut.

20. Yn ystod y Bumed Senedd, canolbwyntiwyd y sylw yn gadarn ar ymadawiad y DU â'r UE: beth y byddai'n ei olygu i safonau amgylcheddol; sut yr eir i'r afael â'r bylchau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru; a beth fyddai polisiau amaethyddiaeth a physgodfeydd ar ôl ymadael â'r UE yn ei olygu i reoli tir a moroedd Cymru mewn modd cynaliadwy. Mae llawer o'r cwestiynau allweddol hyn eto i'w hateb.

21. Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd y Chweched Senedd argyfwng natur a nododd ei disgwyliadau ar gyfer camau gweithredu cryfach i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, gan gynnwys targedau bioamrywiaeth statudol, a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol statudol i Gymru.

Beth y byddwn yn ei wneud yn ystod y chwe mis nesaf...

Llygredd afonydd - Byddwn yn cynnal sesiwn untro gyda rhanddeiliaid i drafod gollyngiadau carthffosiaeth didrwydded.

Adferiad gwyrdd - Byddwn yn archwilio cynnydd wrth weithredu adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Adferiad Gwyrdd.

Morol - Byddwn yn ystyried ystod o feysydd polisi fel y maent yn ymwneud â'r amgylchedd morol, gan gynnwys cynllunio gofodol a datblygu ynni adnewyddadwy, Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a charbon glas.

Llywodraethu amgylcheddol - Byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Bil cyn gynted â phosibl.

Cyfoeth Naturiol Cymru - Byddwn yn cynnal ein sesiwn graffu flynyddol gyntaf gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Beth y byddwn yn ei wneud ym Mlwyddyn 2 tymor y Senedd hon...

Llywodraethu amgylcheddol - Byddwn yn craffu ar fesurau llywodraethu amgylcheddol dros dro Llywodraeth Cymru drwy gynnal sesiwn untro gyda'r Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro yn dilyn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol (a ddylai fod ar gael yng ngwanwyn 2022).

Bioamrywiaeth - Byddwn yn archwilio a yw canlyniad Cynhadledd y Pleidiau (COP15) i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, a fydd yn cael ei chynnal ym mis Mai 2022, wedi siapio ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng natur. Byddwn yn parhau i adolygu'r cynnydd tuag at gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol.

Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) - Byddwn yn ystyried cyfleoedd i graffu ar y darpariaethau yn y Bil sydd ar ddod sy'n berthnasol i'n cylch gwaith.

Coedwigaeth - Byddwn yn asesu cynnydd ar bolisiau coedwigaeth, gan gynnwys y Goedwig Genedlaethol, ac yn ystyried cynnydd tuag at gyflawni [argymhellion](#) (Gorffennaf 2021) y Tasglu Coed a Phren a'r Cynllun Gweithredu newydd Coetiroedd i Gymru (a ddylai gael ei gyhoeddi cyn diwedd 2021).

Morol - Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd ar bolisiau morol, gan gynnwys yr adolygiad o bolisiau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r cynnydd tuag at gyflawni amcanion y Cynllun, a ddisgwyliar cyn mis Tachwedd 2022. Byddwn yn ystyried gwahaniaethau mewn rheolaeth amgylchedd morol o ganlyniad i ddarn o waith academaidd ar 'Brexit, datganoli a'r môr' (*eisoes wedi'i gomisiynu*).

Ym mlynnyddoedd 3-5, bydd ein gwaith yn cynnwys y canlynol:

Byddwn yn ystyried trefniadau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth ariannol i'r sector **amaethyddiaeth** o safbwynt amgylcheddol a chynaliadwyedd. Byddwn yn parhau i adolygu materion morol, llywodraethu amgylcheddol, a thargedau bioamrywiaeth statudol.